



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Protocol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ar gyfer Ymateb i Ddigwyddiadau o Bwys

Hydref 2015



Protocol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ar gyfer Ymchwilio i Ddigwyddiadau o Bwys

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn datgan protocol Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub (Cymru) (CFRAW) pan geir digwyddiad o bwys sy'n ymwneud ag unrhyw un o Wasanaethau Tân ac Achub Cymru. Mae'n rhoi sylw i amgylchiadau (i) lle mae'r CFRAW ar ran Llywodraeth Cymru yn dewis gweithredu ar ei ran ei hun yn dilyn digwyddiad o bwys neu (ii) lle mae cyrff ymchwilio statudol eraill yn ceisio cyngor.

Yn y ddogfen hon mae 'digwyddiad o bwys' yn golygu digwyddiadau, y mae eu hamgylchiadau neu'u canlyniadau yn debygol o ddenu diddordeb neu bryder gan y cyhoedd. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddigwyddiadau lle mae diffoddwyr tân neu aelodau o'r cyhoedd yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol, yn ogystal â digwyddiadau difrifol sy'n uchel eu proffil.

Mae gan y CFRAW swyddogaethau statudol fel Arolygydd dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ac fe allai ddefnyddio'r pwerau hyn i gychwyn ymchwiliad dan delerau'r protocol hwn.

Blaenoriaeth yr Heddlu a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â marwolaethau

Mae'n bwysig nodi, mewn unrhyw achos sy'n cynnwys marwolaeth unigolyn – boed hwnnw'n un o weithwyr Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru neu'n unrhyw un arall - neu achos troseddol posibl, y bydd yr Heddlu a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cael blaenoriaeth mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliad. Mae hyn yn golygu y bydd y CFRAW ym mhob achos o'r fath yn cysylltu â'r Heddlu a'r HSE i drafod cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynglŷn ag a ddylai'r CFRAW ymchwilio neu sut ddylai ymchwilio.

A yw'n 'ddigwyddiad o bwys'?

Ceir amrywiaeth eang o amgylchiadau posibl y gellid eu hystyried yn ddigwyddiadau o bwys. Mae'r cwestiwn a ddylai digwyddiad gael ei drin fel digwyddiad o bwys yn fater o ddisgresiwn i'r CFRAW ac fe allai wneud rhywfaint o waith cychwynnol i ganfod ffeithiau digwyddiad, cyn penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad gan ddilyn yr egwyddorion a nodir isod.

Hysbysu o ddigwyddiadau o bwys

Gallai'r CFRAW ddod yn ymwybodol o ddigwyddiad o bwys drwy adroddiadau yn y cyfryngau, drwy'r Heddlu neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), neu drwy ohebiaeth uniongyrchol gan un o Wasanaethau Tân ac Achub Cymru neu'r cyhoedd. Dylai'r CFRAW wneud penderfyniadau ynglŷn ag a yw digwyddiad yn ddigwyddiad 'o bwys', ac a ddylai'r CFRAW ymchwilio ai peidio, cyn gynted ag y bo modd ar ôl trafod manylion y digwyddiad a'r rhesymeg dros ymchwilio gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd memorandwm dealltwriaeth ar

wahân gyda Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA) Cymru yn ddymunol i gael trefniant ffurfiol er mwyn i GTA Cymru hysbysu'r CFRAW o amgylchiadau sydd neu y gallent gyfrif fel 'digwyddiad o bwys'.

A ddylai'r CFRAW ymchwilio?

Nid yw'r ffaith bod digwyddiad o bwys wedi digwydd yn golygu o anghenraid y dylai'r CFRAW ymchwilio. Mae yna nifer o randdeiliaid eraill gan gynnwys yr Heddlu, yr HSE, y Gwasanaeth Tân ac Achub dan sylw, ac undebau llafur, a gallai unrhyw rai o'r rhain fod eisiau gwneud eu hymchwiliad eu hunain. Dylai'r CFRAW, lle bo modd, osgoi dyblygu gwaith ymchwilio sy'n cael ei wneud gan rywun arall.

Mae angen i benderfyniad ynglŷn ag a ddylid ymchwilio ystyried nifer o ffactorau newidiol. Nid yw'n hawdd rhagweld beth ddylai'r ateb fod mewn unrhyw achos penodol: ond yr un fydd yr ystyriaethau i'w pwysu a'u mesur cyn gwneud penderfyniad. Maent wedi'u nodi isod, ond nid ydynt o reidrwydd yn ffurfio rhestr gynhwysfawr. Bydd y CFRAW yn defnyddio barn broffesiynol i geisio cymeradwyaeth y Gweinidog i gynnal ymchwiliad gan ystyried y meini prawf isod.

Oherwydd bodolaeth rôl yr Arolygiaeth mae'r llywodraeth a'r cyhoedd yn disgwyl y bydd y CFRAW yn gofalu ei fod yn edrych i mewn i faterion sy'n peri pryder. Os ystyrir nad yw'n angenrheidiol gwneud hynny, efallai oherwydd y bydd corff cymwys arall yn ymchwilio, yna efallai y byddai datganiad cyhoeddus byr i'r perwyl hwnnw'n briodol.

Dyma rai o'r manteision y gellid eu cael drwy ymchwiliad CFRAW:

- Adroddiad cyhoeddus;
- Annibyniaeth oddi wrth GTA Cymru a'r Llywodraeth;
- Arbenigedd technegol a phroffesiynol;
- Didueddrwydd heb unrhyw 'agenda' i'w dilyn (gweler y drafodaeth isod);
- Mae ymchwiliadau'r Heddlu neu'r HSE yn tueddu i ganolbwyntio ar weithredoedd troseddol neu achosion o dorri deddfwriaeth ac mae'n bosibl na fyddent o reidrwydd yn canolbwyntio ar lunio adroddiad sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch nac ar wersi a ddysgwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y CFRAW yn gallu llunio adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' ar wahân sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch cyn i wersi o'r fath ddod i'r amlwg o ymchwiliad troseddol;
- Ffocws ar 'wersi a ddysgwyd' nad yw'n ceisio canfod bai nac atebolrwydd ac sydd felly'n gallu ystyried y ffeithiau drwyddynt draw heb orfod eu ffitio i gyd-destun, megis briff erlyniad.

Efallai ei bod yn bosibl i'r CFRAW fod yn rhan o ymchwiliad mewnol gan GTA Cymru fel ymgynghorydd neu mewn rôl oruchwylio, heb orfod dyblygu camau'r ymchwiliad hwnnw ei hun.

Pan fydd digwyddiad o bwys yn cynnwys marwolaeth neu drosedd posibl, bydd y CFRAW yn trafod gyda'r Heddlu ac, os cânt eu dwyn i mewn, gyda'r HSE, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro gyda buddiannau'r Heddlu na'r HSE.

Os gallai achos troseddol gael ei gynnal, mae'n bosibl i swyddogion CFRAW gael eu dwyn i mewn fel tystion arbenigol oherwydd y ffaith eu bod wedi cynnal ymchwiliad. Er nad yw hyn yn ddo'i hun yn rheswm i beidio ag ymchwilio, dylid sylweddoli y gallai hyn ddigwydd. Wrth wneud penderfyniad i arwain ymchwiliad ai peidio, byddai'r CFRAW yn ystyried:

- Beth yw'r 'gwir ystyriaethau' o safbwynt swyddogaeth statudol y CFRAW? Er enghraifft, a yw maes penodol o athrawiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn gweithio'n dda a/neu a gafodd ei ddefnyddio'n briodol yn y digwyddiad. A allai ymchwiliad trydydd parti roi cystal sylw i'r ystyriaethau hynny?
- Beth yw logisteg yr ymchwiliad ac a yw'n gymesur i'r CFRAW ymchwilio o ystyried cyfraniad disgwylidig cyrff eraill?
- A oes gan y CFRAW yr arbenigedd technegol perthnasol i gynnal ymchwiliad, er enghraifft mewn perthynas â phrofion technegol ar gyfarpar ac offer gwarchodol personol?

Os yw'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn dod i'r casgliad, ar ôl ystyried y ffactorau hyn, fod ymchwiliad gan y CFRAW yn gymesur yn yr holl amgylchiadau ac y gallai arwain at fanteision na cheir o ymchwiliad gan gorff arall, bydd y CFRAW yn bwrw ymlaen â'r ymchwiliad. Ar y llaw arall, os yw'n ymddangos nad yw ymchwiliad y CFRAW yn gymesur neu os na fyddai'n ychwanegu gwerth, gall datganiad byr i'r perwyl hwnnw ar wefan Llywodraeth Cymru fod yn ddefnyddiol i roi cyhoeddusrwydd i'r rhesymau am y penderfyniad hwn.

Pan fydd y CFRAW yn gwneud penderfyniad i fwrw ymlaen ag ymchwiliad, bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r Prif Swyddog Tân perthnasol cyn dechrau'r ymchwiliad.

Cyfeirir uchod at ddidueddrwydd y CFRAW fel un o fanteision posibl cynnal ymchwiliad. Efallai y bydd yna serch hynny wrthdaro buddiannau ymddangosiadol os yw amgylchiadau digwyddiad yn ymwneud â chynghor y mae'r CFRAW wedi ei roi yn y gorffennol i Weinidogion Cymru, neu os gwelir bod y CFRAW o farn benodol neu wedi mynegi barn benodol ar faterion perthnasol. Cyn dechrau unrhyw ymchwiliad bydd CFRAW yn ystyried yn ofalus a allai unrhyw wrthdaro ymddangosiadol o'r fath fodoli. Os felly, nid yw hyn yn golygu na all neu na ddylai'r CFRAW ymchwilio. Yn lle hynny, dylai adroddiad unrhyw ymchwiliad gynnwys datganiad clir o wrthdaro posibl gan amlinellu'r camau a gymerwyd i liniaru'r effeithiau. Drwy fod yn dryloyw fel hyn, gellir lleihau effaith unrhyw wrthdaro ymddangosiadol.

Mae'n rhaid i unrhyw ymchwiliad a wneir o fewn cwmpas y protocol hwn ddilyn nifer o egwyddorion allweddol. Dylai ymchwiliad:

- Osgoi rhoi bai ar neb;
- Ceisio canfod achosion uniongyrchol a sylfaenol y digwyddiad;
- Nodi camau y gallai'r Awdurdodau Tân ac Achub ac eraill eu cymryd i osgoi ail-ddigwyddiad;
- Gwneud argymhellion priodol i'r Awdurdodau Tân ac Achub a chyhoeddi'r canfyddiadau;
- Adrodd yn glir ac awdurdodol gan barchu sefyllfa dioddefwyr a'u

teuluoedd.

Ymgynghori â Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Bydd pob ymchwiliad mewn perthynas â digwyddiadau o bwys sy'n cael eu cynnal gan y CFRAW yn cael ei sancsiynu gan y Gweinidog neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar sail y cyngor cychwynnol a ddarparwyd.

Cysylltu â chyrrff ymchwilio eraill

Ar ôl i'r chyrrff ymchwilio eraill gael eu henwi, dylai'r arolygydd arweiniol gysylltu â nhw. Mae angen i benderfyniadau pragmatig gael eu gwneud ynglŷn â materion fel cyfweld, a dylai pob ymdrech gael ei gwneud i atal pobl a fu'n gysylltiedig â digwyddiad o bwys rhag cael eu cyfweld dro ar ôl tro. Dylai'r protocolau sy'n bodoli eisoes yn ymdrin â chydweithredu rhwng asiantaethau ar ddigwyddiadau o bwys y mae'r CFOA, ACPO, y CPS a'r HSE wedi cyd-gytuno arnynt, sef "*Guidance for the investigation of Fire Fighter Fatalities arising from work activities*" gael eu hystyried.

Ymgynghori â chyrrff eraill cyn cyhoeddi

Mae hefyd yn bwysig, cyn i unrhyw adroddiad CFRAW ar ddigwyddiad o bwys gael ei gyhoeddi, y dylid ymgynghori â chyrrff ymchwilio eraill gan roi cyfle iddynt roi sylwadau ar yr adroddiad neu'r bwriad i'w wneud yn gyhoeddus. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r HSE, a'r CPS a allai fod yn ystyried achos cyfreithiol mewn perthynas â'r amgylchiadau. Fel rheol gyffredinol bydd bob amser yn briodol ymgynghori â'r CPS cyn cyhoeddi, hyd yn oed os yw eu cyfranogiad wedi dod i ben yn ôl pob golwg.

Bydd y CFRAW yn ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub priodol i roi cyfle iddo wneud sylwadau cyn cyhoeddi adroddiad yr ymchwiliad.

Cais am gymorth gan gyrff erlyn

Ambell dro, gallai'r CFRAW gael cais i ddarparu cyngor, neu i weithio gyda chyrrff statudol eraill ar ymchwiliad i ddigwyddiadau o bwys. Dylid rhoi ystyriaeth i'r potensial i danseilio annibyniaeth y CFRAW a phosibilrwydd ymchwiliad 'dim bai' posibl.

Rheoli risg yn gysylltiedig â'r protocol hwn

Mae gwneud ymchwiliad amserol gan y CFRAW i ddigwyddiadau o bwys sy'n ymwneud ag un o Wasanaethau Tân ac Achub Cymru o fudd i ddarparu barn arbenigol ddiudedd ar ddigwyddiadau a nodi materion diogelwch pwysig yn gynnar. Gallai'r CFRAW benderfynu, o safbwynt unrhyw ddigwyddiad o bwys, y bydd yr ymchwiliadau a fydd yn cael eu gwneud gan drydydd parti (naill ai gyda neu heb oruchwyliaeth neu gyfraniad o fath arall gan y CFRAW) yn ddigonol i fodloni buddiannau'r Gweinidog ac, yn yr achos hynny, gellid cyhoeddi datganiad byr i'r perwyl hwnnw. Os penderfynir y dylai'r CFRAW wneud ei ymchwiliad ei hun, dylai'r risgiau cysylltiedig, a mesurau lliniaru a rheoli posibl gael eu hystyried.

Cyhoeddi Adroddiad yr Ymchwiliad

Ar ôl cwblhau unrhyw ymchwiliad i ddigwyddiad o bwys, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyhoeddi'r adroddiad o'r canfyddiadau'n amserol.

Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i ryddhau adroddiad yr ymchwiliad yn amserol a gwneir hynny ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid a chael cymeradwyaeth gan y Gweinidog.

Ymgynghori

Wrth lunio'r protocol hwn, ymgynghorwyd â'r bobl neu'r cyrff canlynol:

- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaethau Heddlu Cymru
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM yng Nghymru
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cyrff cynrychioliadol y Gwasanaethau Tân ac Achub
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu